Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth

Gwleidyddiaeth a Chysylltiadau Rhyngwladol

Israddedig
Rhaglenni Gradd 2025

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Rhesymau dros ymuno â ni

Ein dulliau addysgu

Rydym yn un o grŵp bach o brifysgolion y DU sy'n cynnig modiwl Astudiaethau Seneddol a gymeradwyir gan San Steffan ac sy'n cael ei gyflwyno mewn partneriaeth â Thai Senedd San Steffan. Pa ffordd well o ddysgu sut mae llywodraeth yn gweithio na thrwy glywed gan y rhai sy'n gweithio yno?

Ein lleoliad

Rydyn ni ar gyrion canol dinas hardd Caerdydd. Mae Llywodraeth Cymru, Llys y Goron yn gymdogion i ni, ac mae Llyfrgell y Celfyddydau ac Astudiaethau Cymdeithasol ar draws y ffordd. Ar ben hynny, dim ond taith chwarter awr ar drên yr ydym i ffwrdd o Senedd Cymru ym Mae Caerdydd. Felly, os ydych chi eisiau bod yn rhan o'r holl gyffro gwleidyddol, rydych chi'n gwybod ble mae angen i chi fod!

Ein harbenigwyr

Mae ein tîm sydd o fri rhyngwladol yn cynnwys arweinwyr ymchwil sy'n gweithio gydag ymarferwyr a llunwyr polisïau ledled y byd. Maent yn eu cynghori mewn llywodraethau, melinau trafod a chyrff anllywodraethol gan gynnwys y Panel Rhyngwladol ar Newid Hinsawdd, y Cenhedloedd Unedig, NATO, G7 a'r Undeb Affricanaidd. Ar ôl ymuno â ni, byddwch yn dod i arfer â gweld eich darlithwyr ar y teledu neu'n eu clywed ar y radio byth a beunydd!

Ymgysylltu a chysylltu â'r byd o'ch cwmpas

Ar ymylon canolfan ddinesig hanesyddol Caerdydd, ceir monolith concrid o'r 1950au, sy'n dra gwahanol i'r tai Fictoraidd o'i gwmpas. Mae hynny'n briodol, fodd bynnag, gan fod y syniadau rydyn ni'n eu meithrin o fewn ei waliau yn dra gwahanol hefyd.

Ydych chi'n ystyried eich hun yn ddarpar dinesydd byd-eang? A ydy'r hyn a welwch ar fwletinau newyddion dyddiol yn eich cyffroi neu'n eich cythruddo? Ydych chi eisiau datblygu eich gwybodaeth a chael gwell dealltwriaeth o sut rydyn ni'n trefnu ein bywydau ar y cyd mewn byd cynyddol ryng-gysylltiedig?

Ymunwch â ni i ymgysylltu'n feirniadol a mynd i'r afael â'r syniadau, y sefydliadau a'r arferion sy'n llywio bywydau pobl ledled y byd.

Arweinir ein rhaglenni gan arbenigwyr o fri sy'n ystyried y gorffennol a'r presennol, gartref a thramor, gan archwilio'r hyn sy'n effeithiol ac yn aneffeithiol. Rydyn ni'n gymuned ddysgu amrywiol, sy'n dod o bob rhan o'r byd. Mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio o ystod o safbwyntiau a chefndiroedd wrth edrych ar yr heriau byd-eang sy'n ein hwynebu, o'r newid yn yr hinsawdd a rhyfel, i dlodi a phandemigau.

Rydym yn gweithio gyda sefydliadau gwleidyddol allweddol yng Nghymru, y DU a thu hwnt. Rydym yn llywio polisïau – gan gynnwys rhai ein cymdogion, Llywodraeth Cymru, San Steffan, y G7, neu'r Cenhedloedd Unedig. Rydym yn cydweithio â NATO, y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd, yn ogystal ag ystod o gyrff anllywodraethol, llunwyr polisïau a newyddiadurwyr. Mae'r cysylltiadau hyn yn ein helpu i wreiddio ein gwaith academaidd yn y byd ymarferol ac mae'n caniatáu i chi weld yr hyn rydych yn ei ddysgu yn cael ei roi ar waith.

Rydym yn sylweddoli bod angen mwy na theori arnoch ar ôl i chi adael y brifysgol. Mae'n hanfodol bod gennych brofiadau go iawn ac ymarferol i'w rhoi ar eich CV ac i'ch helpu i fod gam ar y blaen, felly rydym yn cynnig y rhain i chi hefyd. Os ydych chi eisiau mynd ar leoliad gwaith yn ystod eich astudiaethau, cewch wneud hynny! Os ydych eisiau astudio dramor, cewch wneud hynny*! Bydd y cyfleoedd hyn, ochr yn ochr â'r hyn rydych chi'n ei ddysgu ar eich rhaglen, yn rhoi'r holl sgiliau sydd eu hangen arnoch i lwyddo.

Mae ein myfyrwyr wedi rhagori mewn sectorau sy'n cynnwys sefydliadau anllywodraethol, datblygu byd-eang, busnes rhyngwladol, diplomyddiaeth a deallusrwydd mewn llywodraeth, newyddiaduraeth, ac ymchwil polisi, ymhlith llu o feysydd eraill.

Rydym yn gymuned fywiog ac amrywiol sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth. Cofleidiwch yr her a dylanwadu ar y dyfodol gyda ni.

*Mae'r holl gyfleoedd ychwanegol a nodir yma yn cael eu cynnig drwy broses gystadleuol fel arfer, sy'n golygu y gallai fod angen i chi wneud cais i gymryd rhan.

Y tu hwnt i'r seminar

Nid mewn ystafelloedd seminar neu ddarlithfeydd yn unig y dysgir popeth. Felly, byddwn yn eich annog i fanteisio ar ffyrdd newydd o ddysgu, mynd ar drywydd anturiaethau a chreu cyfeillgarwch.

Byddwch yn ddinesydd model

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn siarad yn gyhoeddus, eirioli, dadlau a theithio, ewch ati i fod yn ddinesydd model drwy ymuno â Model y Cenhedloedd Unedig. Efelychiad academaidd o'r Cenhedloedd Unedig yw Model y Cenhedloedd Unedig, a'i nod yw addysgu am gyfraith ryngwladol, cydweithredu, a diplomyddiaeth amlochrog.

Byddwch chi'n ymgymryd â rôl diplomyddion sy'n cynrychioli gwladwriaethau ac yn cymryd rhan mewn sesiwn mudiad neu bwyllgor, sy'n rhan o'r Cenhedloedd Unedig (fel y Cyngor Hawliau Dynol neu'r Cyngor Diogelwch). Byddwch yn ymchwilio i safbwynt eich gwlad, yn dadlau, yn ystyried, yn ymgynghori, ac yn y pen draw yn datblygu fframwaith newydd ar gyfer y Cenhedloedd Unedig sy'n cynnig atebion i broblemau mawr y byd. Allech chi fod yn ddiplomydd yn y dyfodol?

Byw bywyd gwleidyddol

Mae dod o hyd i bobl o'r un anian yn wirioneddol bwysig wrth ymgartrefu mewn lle newydd. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnig ystod o gymdeithasau a chlybiau, gan gynnwys nifer o gymdeithasau â phwyslais gwleidyddol. Mae'r cymdeithasau yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol a rhwydweithio, yn gwahodd siaradwyr gwleidyddol i'r campws ac yn rhedeg ystod o dimau chwaraeon. Mae gennym y Gymdeithas Wleidyddiaeth, Cymdeithas Geidwadol ac Unoliaethol Prifysgol Caerdydd, Cymdeithas Myfyrwyr Llafur, Cymdeithas Farcsaidd a Phlaid Cymru, ymhlith llu o rai eraill.

Ehangwch eich gorwelion

Er ein bod ni am i chi wirioni ar Gaerdydd lawn cymaint â ni (ac yn hyderus y byddwch chi), rydyn ni'n gwybod bod gweld rhannau eraill o'r byd yn eich helpu chi i dyfu'n bersonol ac yn academaidd. Mae ein holl raglenni gwleidyddiaeth israddedig a chysylltiadau rhyngwladol yn cynnig cyfleoedd i astudio dramor yn Ewrop a thu hwnt! Cewch eich addysgu yn Saesneg mewn sefydliad partner lle byddwch yn dod yn fwy annibynnol, yn ymateb i heriau deallusol, ac yn dod i gysylltiad â diwylliannau newydd a chyffrous.

> **"Rwyf wedi cael fy ethol yn ddiweddar fel Llywydd y Gwleidyddiaeth clwb pêl-rwyd. Rwyf wedi caru bod yn llwyr rhan o'r clwb pêl-rwyd fel y mae wedi caniatáu i mi gwrdd â phobl ar fy nghwrs, ac ymlaen fy modiwlau, ond hefyd cwrdd â phobl newydd yn y brifysgol.**

Mae gennym ni aelodau o lawer o wahanol graddau, felly mae wedi bod yn ffordd anhygoel i wneud ffrindiau. Wrth ddod i Gaerdydd, Byddwn yn bendant yn annog edrych ar y Cymdeithas Wleidyddiaeth a'u timau chwaraeon.

Emily Jakes, Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth (BSc Econ)



Ein rhaglenni gradd

Rydym yn un o'r darparwyr mwyaf o rhaglenni israddedig mewn gwleidyddiaeth a cysylltiadau rhyngwladol yn y DU a ninnau wedi bod yn cynnig addysg yn y disgyblaethau hyn am dros 125 o flynyddoedd.

Yn ystod y cyfnod hwnnw rydym wedi dysgu bod myfyrwyr yn hoffi dewis, felly rydym yn cynnig ystod o fodiwlau amrywiol sy'n newid tymor ar dymor yn dibynnu ar yr hyn sy'n digwydd yn y byd. Mae ein modiwlau yn amserol ac yn berthnasol sy'n cadw eich dysgu cyfredol ac ystyrlon.

Pa raglen bynnag a ddewiswch, astudio dramor, y Gymraeg a bydd cyfleoedd lleoliadau ar gael i chi a gallwch ddewis i ymuno ag un o'r llu sy'n cael ei redeg gan fyfyrwyr cymdeithasau sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth sydd cael ei reoli drwy Undeb y Myfyrwyr.

I archwilio'n llawn beth mae pob rhaglen yn cynnig, adolygu eu cofnod meini prawf, a chloddio'n ddyfnach i mewn i'r modiwlau y byddwch astudio, ewch i'n gwefan.

Gwleidyddiaeth (BSc Econ)

Côd UCAS: L200

Byddwch yn ddinesydd gwybodus sy'n gallu dadansoddi'n feirniadol y penderfyniadau a wneir gan y rhai sydd mewn grym.

Mae astudio gwleidyddiaeth yn eich galluogi i archwilio sut mae seneddau a llywodraethau'n gweithredu, yn ogystal â gwerthuso syniadau gwleidyddol fel grym, rhyddid, democratiaeth, gwrthdaro, dilysrwydd ac atebolrwydd.

Mae'r rhaglen hon yn edrych ar sefyllfaoedd gartref a thramor; yn dadansoddi digwyddiadau gwleidyddol mawr a pharhaus megis datgymalu undeb gwleidyddol y DU, goblygiadau Brexit, gwleidyddiaeth seiberddiogelwch rhyngwladol, a rôl hawliau dynol, terfysgaeth a newid yn yr hinsawdd byd-eang.

Byddwch yn dechrau arni drwy edrych ar sylfeini syniadaeth wleidyddol y Gorllewin, dadansoddi gwleidyddiaeth fodern, globaleiddio a chysylltiadau rhyngwladol, ac integreiddio Ewropeaidd. Wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, gallwch ddyfnhau eich dealltwriaeth drwy ganolbwyntio ar feysydd sydd o ddiddordeb i chi drwy ein hystod o fodiwlau dewisol. Mae'r rhain yn ymdrin â phynciau sy'n cynnwys rhyfel a chymdeithas, rhyw, cyffuriau a pholisi cyhoeddus, dyddiaduron, cofiannau a bywgraffiadau ffigurau gwleidyddol, etholiadau'r DU a seicoleg wleidyddol.

Pob darlithydd a gefais wedi bod yn eithriadol caredig a chymwynasgar wrth fy nghynorthwyo fy astudiaethau.

Ansawdd y dysgu a gefais yn ddigymar ac yn bendant wedi bod yn y y peth rwy'n ei fwynhau fwyaf am fy astudiaethau.

Nathan Mintz
Gwleidyddiaeth (BSc Econ)

Darganfod mwy am y cwrs hwn.

Cysylltiadau Rhyngwladol (BSc Econ)

Côd UCAS: 305Q

Ymunwch â ni i fod yn ddinesydd byd-eang go iawn sy'n ymwneud â'r byd o'ch cwmpas.

Mae byd rhyng-gysylltiedig yr 21ain ganrif yn golygu nad ydym erioed wedi teimlo'n agosach at ein cyd-ddyn, ble bynnag y maent yn byw ar y blaned. Mae'r byd wedi mynd yn llai yn drosiadol ac mae materion a digwyddiadau sy'n digwydd yr ochr arall i'r byd o bwys i ni nawr yn fwy nag erioed o'r blaen. Nid oes unrhyw gyfundrefn wleidyddol, llywodraeth na rhagfarn ganfyddedig na ellir ei thrafod, ac mae hyn yn arwain at weithredaeth, symudiadau byd-eang a phegynnu barn. Erbyn hyn, mae popeth yn cael ei weld, ei glywed a'i ddadansoddi'n fanwl.

Rydym yn archwilio'r ffenomen gyfoes hon ac yn ei dadansoddi. Rydym yn edrych ar rôl gwladwriaethau, cynghreiriau rhyngwladol, sefydliadau anllywodraethol a chwmnïau rhyngwladol a sut maent yn gweithredu o fewn cymdeithas fyd-eang yr oes sydd ohoni.

Cewch eich addysgu gan ein tîm gwirioneddol ryngwladol sy'n rhagori mewn technolegau digidol, y Rhyfel Oer, cyfundrefnau amgylcheddol byd-eang, seicoleg wleidyddol, rôl rhywedd, rhyw a hil mewn gwleidyddiaeth fyd-eang, poblyddiaeth, pandemigau ac iechyd byd-eang i enwi dim ond rhai o'r pynciau y gallwch eu hastudio gyda ni.

"Y peth wnes i fwynhau fwyaf am fy astudiaethau, heb a cysgod amheuaeth, oedd y gallu i gwneud rhai modiwlau trwy gyfrwng o Gymraeg.

Rwy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac fe wnes i fwynhau gwneud y gorau o bob cyfle yn cael ei gynnig i ymgysylltu ac astudio drwy'r Gymraeg.

Emily Pemberton
Cysylltiadau Rhyngwladol (BSc Econ)

Darganfod mwy am y cwrs hwn.

Y Gyfraith a Gwleidyddiaeth LLB

Côd UCAS: ML12

Mae'r berthynas rhwng y gyfraith a gwleidyddiaeth yn un sy'n dibynnu ar ei gilydd.

Mae'r ddau bwnc yn cael effaith enfawr ar fywydau pobl beth bynnag fo'u hoedran, eu hethnigrwydd a'u cefndir cymdeithasol. Cymaint yw'r effaith hon, fe ddaethom â'r ddwy ddisgyblaeth ynghyd o dan yr un to yn 2014, pan gafodd Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth ei chreu.

Yn gyffredinol, mae cyfreithiau'n cael eu creu ar sail y systemau gwleidyddol sydd ar waith mewn unrhyw wlad. Mae hyn yn golygu bod y ddeinameg gyfreithiol-wleidyddol yn hanfodol er mwyn arsylwi ac archwilio cymdeithas. Byddwch yn astudio agweddau sylfaenol ar y gyfraith i'ch paratoi ar gyfer bywyd yn y sector ond, ochr yn ochr a hynny, cewch astudio sut mae seneddau a llywodraethau'n gweithredu ac yn gwerthuso syniadau gwleidyddol megis grym, rhyddid, democratiaeth, gwrthdaro, dilysrwydd ac atebolrwydd.

“Y gallu i archwilio'r croestoriad rhwng cyfraith a gwleidyddiaeth wedi bod yn un o'r mwyaf diddorol ac ysgogol agweddau ar fy nghwrs.

Rwyf wedi gallu cyfuno gwybodaeth ar draws y ddwy ddisgyblaeth i wella fy sgiliau mewn ymdeimlad academaidd, ond hefyd yn datblygu ymdeimlad cyflawn dealltwriaeth o'r ddau bwnc.

Aeden Rooney
Y Gyfraith a Gwleidyddiaeth (LLB)

Darganfod mwy am y cwrs hwn.

Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth (BSc Econ)

Côd UCAS: L290

Mae'r rhaglen hon, sy'n cyfuno cysylltiadau rhyngwladol a gwleidyddiaeth, yn rhoi dealltwriaeth gyfannol i chi o'r byd o safbwynt y DU ac o safbwynt rhyngwladol. Byddwch hefyd yn dod i ddeall y berthynas gymhleth rhwng gwleidyddiaeth genedlaethol a byd-eang.

Bydd ein tîm gwirioneddol ryngwladol yn eich tywys trwy'r materion byd-eang pwysicaf sy'n effeithio ar ein bywydau bob dydd, gan edrych ar y rhyngweithio sy'n digwydd rhwng gwladwriaethau, cynghreiriau byd-eang, cyrff anllywodraethol, a chorfforaethau rhyngwladol. Byddwch yn dadansoddi systemau gwleidyddol, polisïau tramor, a gwrthdaro rhyngwladol wrth ddysgu sut mae cenhedloedd yn rhyngweithio ac effaith y rhyngweithiadau hyn ar sefydlogrwydd a diogelwch byd-eang.

Bydd astudio'r pynciau hyn yn eich gwneud chi'n ymwybodol o sefyllfaoedd byd-eang, gan agor y posibilrwydd o ddilyn gyrfa mewn diplomyddiaeth, sefydliadau rhyngwladol, asiantaethau'r llywodraeth, di-elw, a mentrau byd-eang.

"Dewisais astudio IR a Gwleidyddiaeth gan fy mod yn credu y bydd yn ehangu fy gorwelion ac agor amrywiaeth o ddrysau pan ddaw i gyflogaeth.

Dewisais Brifysgol Caerdydd i astudio fel y mae a Prifysgol Grŵp Russell mewn dinas hardd lle mae costau byw yn fforddiadwy a mae ganddo gysylltiad da â'r llywodraeth cyrff fel Senedd Cymru a San Steffan Senedd.

Masud Alom, Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth (BSc Econ)

Darganfod mwy am y cwrs hwn.

Astudio gwleidyddiaeth gyda pynciau cyflenwol

Mae gwleidyddiaeth yn bwnc sy'n rhedeg drwyddo pob elfen o'n bywydau. Mae hyn yn ei gwneud yn pwnc ardderchog i ddysgu ochr yn ochr ag ef pynciau cyflenwol.

Trwy astudio 2 bwnc byddwch yn ennill pwnc gwahanol ac amrywiol yn awtomatig persbectif ar y byd.

Ein hopsiynau cydanrhydedd:

- caniatáu i chi ganolbwyntio ar fwy nag un maes pwnc
- annog rheoli amser
- rhoi mynediad i chi i ystod ehangach o fodiwlau
- darparu llu o sgiliau trosglwyddadwy i chi

Mae ein rhaglenni cydanrhydedd ar hyn o bryd fel a ganlyn:

- **Newyddiaduraeth, Cyfathrebu a Gwleidyddiaeth (BA)**
- **Hanes Modern a Gwleidyddiaeth (BA)**
- **Gwleidyddiaeth ac Athroniaeth (BA)**
- **Gwleidyddiaeth a Chymdeithaseg (BSc Econ)**
- **Cymraeg a Gwleidyddiaeth (BA)**

"Dewisais astudio Gwleidyddiaeth a Hanes Modern achos dwi wedi bob amser yn cael eich swyno gan y gwaelodol ffactorau sy'n llywio digwyddiadau heddiw.

Roedd Prifysgol Caerdydd yn sefyll allan i mi yn darparu ystod eithriadol o fodiwlau i dewis o ble y gallaf astudio yn ddigon agos pa bynnag feysydd sydd o ddiddordeb i mi! Mae hyn wedi helpu i gynnal fy angerdd am y pwnc hwn trwy gydol fy amser yma.

Joshua Franklin, Gwleidyddiaeth a Hanes Modern (BSc Econ*)
*Mae'r rhaglen hon bellach yn BA

Meddwl am eich dyfodol

Credwch neu beidio, rydyn ni'n meddwl am eich dyfodol o'r funud y byddwch chi'n ymuno â ni.

Dyna pam mae gennym Gynghorydd Gyrfaoedd penodedig sy'n gallu eich helpu o'ch diwrnod cyntaf. Mae Helen McNally yn gweithio i dîm Dyfodol Myfyrwyr ac yn gyfrifol am lu o weithgareddau i'ch paratoi ar gyfer byd gwaith.

Cewch hyd i ragor o wybodaeth am y cymorth penodol y mae Helen yn ei roi ar ein tudalennau gyrfaoedd a chyflogadwyedd.

Roedd 96%

o'n graddedigion mewn cyflogaeth, a/neu'n astudio ymhellach, ar fin dechrau swydd neu gwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, 15 mis ar ôl diwedd eu cwrs.

HESA, Arolwg Hynt Graddedigion 2019/20

Mae ein graddau mewn gwleidyddiaeth neu gysylltiadau rhyngwladol yn agor drysau i ystod o yrfaoedd cyffrous ac amrywiol i'n graddedigion gyda chyrff anllywodraethol, neu ym meysydd datblygu byd-eang, busnes rhyngwladol, addysgu, diplomyddiaeth a deallusrwydd mewn llywodraeth, newyddiaduraeth, ac ymchwil polisi.

Byddwch gam ar y blaen, bachwch leoliad gwaith

Pan fyddwch chi'n gwneud cais am swyddi, mae'n anochel y cewch eich holi am eich profiad. Ond sut allwch chi ennill profiad os ydych chi newydd dreulio'r 3 blynedd diwethaf yn astudio yn y brifysgol?!

Lleoliadau gwaith yw'r ateb! Rydym yn gwybod bod y profiadau gwaith ymarferol a phroffesiynol yr ydym wedi'u cynnig i'n myfyrwyr yn bwysig, a bod hyn wedi eu helpu i fod gam ar y blaen wrth chwilio am swyddi.

Gweithio ym mhencadlys grym Cymru

Yn eich trydedd flwyddyn cewch wneud cais i fynd ar leoliad gwaith mewn sefydliad sy'n cyflawni rôl bwysig ym maes llywodraethu Cymru. Mae'r lleoliad gwaith hwn yn rhoi cyflwyniad damcaniaethol ond ymarferol i chi i lywodraethu datganoledig yng Nghymru, Bydd yn rhoi'r cyfle i chi ddatblygu sgiliau hynod drosglwyddadwy a meithrin perthnasoedd proffesiynol hirdymor.

Os oes gennych chi gysylltiadau mewn sefydliad yr hoffech chi weithio ynddo, a'ch bod chi'n gallu sicrhau lleoliad gwaith yno, cewch ddewis gwneud cais a throsglwyddo i'n rhaglen gradd Blwyddyn ar Leoliad*.

Mae'r flwyddyn ar leoliad gwaith yn eich galluogi i ddefnyddio'r sgiliau meddwl yn feirniadol a ddysgoch yn ystod eich astudiaethau mewn gweithle proffesiynol, gan wella eich sgiliau cyflogadwyedd a'ch profiad. Chi fydd yn chwilio am gyfle o'r fath ac yn gyfrifol am ei ariannu, ond byddwn yn eich cynorthwyo trwy'r broses.

*Mae'r cyfle hwn ar gael i fyfyrwyr Gwleidyddiaeth, y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Cysylltiadau Rhyngwladol a Chysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth yn unig.

Roedd fy lleoliad o fewn y tîm cyfreithiol yn y Cymry Senedd, o fewn y corff deddfwriaethol, am 10 wythnos o fewn y tymor.

Dysgais sgiliau swyddfa meddal, a sut i ymddwyn yn yr amgylchedd hwnnw. Oherwydd y bobl roeddwn i wedi fy amgylchynu gan, datblygais moesau proffesiynol. Graddiais ym mis Gorffennaf 2023 ac yn ddiweddar dechreuodd swydd yn yr Ieuenctid Bwrdd Cyfiawnder Cymru a Lloegr sydd rhan o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Gurpal Sahota
Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth (BSc Econ)

Beth sy'n gwneud **Caerdydd yn wahanol?**

Ein hacademyddion a'u harbenigedd yw sylfaen ein adran. Nid yn unig y maent yn llywio ein hagenda ymchwil ond hefyd ennyn diddordeb ein myfyrwyr mewn meddwl beirniadol a gofyn i'r perthnasol cwestiynau sydd angen atebion yn y byd academaidd 21ain ganrif a thu hwnt.

Dyma rai o'r wynebau y gallech ddod ar eu traws os ymunwch â'n hysgol. Fe wnaethon ni ofyn iddyn nhw beth maen nhw'n feddwl sy'n gwneud Caerdydd yn wahanol.

Thomas Leahy
Uwch-ddarlithydd Gwleidyddiaeth

Rydym yn astudio themâu fel gwrthdaro, diogelwch a gwleidyddiaeth mewn modd gwirioneddol fyd-eang gan edrych ar achosion o wahanol gyfandiroedd. Mae mynd ati fel hyn yn hollbwysig gan ei fod yn rhoi cysyniadau a gwybodaeth eang i'n myfyrwyr o astudiaethau Cysylltiadau Rhyngwladol neu Wleidyddiaeth. Ar ben hynny, mae'n golygu bod astudiaethau achos amrywiol ar flaenau eu bysedd sy'n eu galluogi i brofi'r cysyniadau eang hyn a dangos gwahaniaethau/tebygrwydd mewn sefyllfaoedd ledled y byd.

Jen Allan
Uwch-ddarlithydd Cysylltiadau Rhyngwladol

Mae myfyrwyr Caerdydd yn rhagorol - rwyf wedi cwrdd â myfyrwyr hynod frwdfrydig sy'n awyddus i weithio i wella'r amgylchedd a chymdeithas. Mae Cymru yn anhygoel. Mae'n wlad sydd â hanes cyfoethog i bobl sydd ar flaen y gad o ran trawsnewidiadau amgylcheddol ac economaidd, gan gynnwys y trawsnewidiad anodd (a dweud o lleiaf) o ddibynnu ar lo. Gallwn ddysgu llawer am yr hanes hwn i helpu i ddeall yr hyn sydd ar y gweill ar gyfer newid mewn modd cyfiawn i fyd sy'n fwy diogel o ran hinsawdd.

Haro Karkour
Darlithydd Cysylltiadau Rhyngwladol

Mae Caerdydd yn adran sydd ar dwf ym maes cysylltiadau rhyngwladol. Mae'n cynnwys ysgolheigion o lawer o genhedloedd a chefndiroedd, i gyd wedi ymrwymo mewn gwahanol ffyrdd i le amryfath ar gyfer gwaith ac astudio. Mae Caerdydd hefyd yn lle unigryw i astudio ac addysgu theori ôl-drefedigaethol, yn yr ystyr ei bod wedi'i lleoli yn y Gogledd Byd-eang ac eto, mewn rhai agweddau, mae ganddi hanes ôl-drefedigaethol mewn perthynas â Lloegr. Adlewyrchir yr hanes ôl-drefedigaethol hwn yn y modd rwyf yn addysgu Cysylltiadau Gwleidyddiaeth nad yw'n canolbwyntio ar theori Gorllewinol yn unig.

Amal Saad
Darlithydd

Roedd Prifysgol Caerdydd yn apelio ata i am ei bod mewn prifddinas gosmopolitan sydd â threftadaeth a hunaniaeth unigryw. Rwy'n teimlo'n gartrefol iawn yma - mae Bae Caerdydd yn fy atgoffa gryn dipyn o arfordir Beirut, ac mae'r bobl yma yn eithriadol o gyfeillgar a chroesawgar fel pobl Libanus. Roedd arbenigeddau academaidd amrywiol a diddordebau ymchwil yr adran yn apelio ata i'n fawr. Mae fy myfyrwyr anhygoel yn gwneud fy swydd hyd yn oed yn fwy gwerth chweil, yn enwedig yn ystod trafodaethau seminar pan maent yn trin a thrafod materion rhanbarthol cymhleth mewn modd beirniadol.

Jonathan Kirkup
Uwch-ddarlithydd Gwleidyddiaeth

Mae'r adran yn ddigon mawr i fod yn lleoliad dysgu bywiog ond yn ddigon bach i gynnal cymuned glos o academyddion a myfyrwyr. Rydym yn brifysgol Grŵp Russell ym mhrifddinas Cymru sy'n golygu ein bod yn denu ffigurau blaenllaw o'r byd gwleidyddol. Mae ein hacademyddion wedi meithrin cysylltiadau â gwleidyddion a swyddogion yn Senedd Cymru a llywodraethau'r DU, sy'n golygu y gallwn gynorthwyo gwleidyddion i ddeall polisïau yn ogystal â rhoi cyfleoedd unigryw i fyfyrwyr weld gwleidyddiaeth ar waith. Rydyn ni'n llythrennol ar draws y ffordd o ble mae'r penderfyniadau'n cael eu gwneud!

Maja Davidovic
Darlithydd Cysylltiadau Rhyngwladol

I mi, mae gwneud Cysylltiadau Rhyngwladol yng Nghaerdydd yn golygu gwneud Cysylltiadau Rhyngwladol hanfodol. Rydym yn addysgu'r canon, wrth gwrs, ond rydym hefyd yn ymestyn ffiniau'r ddisgyblaeth, gan ddangos sut y gall astudiaethau amgen, mwy cynhwysol, a mwy defnyddiol o Gysylltiadau Rhyngwladol edrych. Mae llawer o'n haddysgu yn seiliedig ar ymarfer gan fod llawer ohonom yn academyddion sydd wedi bod mewn gwahanol swyddi anacademaidd neu gwmnïau ymgynghori (neu'n parhau i fod mewn swyddi o'r fath) mewn sectorau llywodraethol ac anllywodraethol. Drwy gydol cyfnod eu hastudiaethau, mae ein myfyrwyr yn cael llu o gyfleoedd i weithio ar amrywiol asesiadau sy'n canolbwyntio ar ymarfer. Mae'r rhain yn efelychu sefyllfaoedd go iawn ac felly'n hybu sgiliau academaidd a throsglwyddadwy.

Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â'r cylch derbyn myfyrwyr ar gyfer dechrau astudio yn 2025, ac mae'n gywir wrth fynd i'r wasg ym mis Mehefin 2024. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan: **www.caerdydd.ac.uk** cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma.

Pan fydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'r wefan, cynnwys y wefan fydd yn cael blaenoriaeth ac yn nodi'r sail yr ydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Eich gradd: Mae myfyrwyr a dderbynnir i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur o ffynonellau cynaliadwy, yn defnyddio inc o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r prosbectws a'r broses gynhyrchu wedi'u hardystio gan yr FSC®.

Mae'r argraffwyr hefyd wedi'u hachredu yn ôl safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855.

Gellir trefnu i'r prosbectws hwn fod ar gael mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys mewn print bras (testun), mewn Braille, ac ar dâp sain / CD.

I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â Laura Roberts:
Ffôn: 029 2087 4455
Ebost: RobertsL9@caerdydd.ac.uk

CARDIFF UNIVERSITY

PRIFYSGOL CAERDYDD

I gael gwybod mwy am Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth ewch i'n gwefan:

Cysylltwch â ni

Prifysgol Caerdydd
Adeilad y Gyfraith
Rhodfa'r Amgueddfa
Caerdydd
CF10 3AX

E-bost: **lawpladmissions@caerdydd.ac.uk**

Ffôn: **029 2087 6705**

Cadwch mewn cysylltiad

cardiffpolitics

@cardiffpolitics

POLIR/0724